# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-28-2005):

### Dyddiad y Cyfarfod: 15 Tachwedd 2005

### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Glyn Davies (Cadeirydd) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro |
| Laura Jones | Dwyrain De Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl y Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Rosemary Butler

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-27-2005

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2005.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Gan nad oedd pwyntiau heb eu trin o'r cyfarfod blaenorol, awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud yn syth i drafod y ddeddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

### 4.1 LC1166 - Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005

Dywedodd y Cynghorydd Cyfreithiol wrth yr Aelodau ei fod wedi anghofio dweud bod y pwynt a danlinellwyd o dan Reol Sefydlog 11.7 yn un y byddai'n briodol ei gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Cytunodd yr Aelodau y gallai'r Memorandwm gael ei ddefnyddio ac y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.2 O ran yr Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

### LC1163 - Gorchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Awdurdod) 2005

### LC1164 - Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005

### LC1165 - Gorchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Bwrdd) 2005

**LC1167 - Rheoliadau Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2005**

**LC1170 - Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2005**

**LC1171 - Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005**

**LC1172 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2005**

## Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau am yr awgrym y dylen nhw ymweld ag adeilad newydd y Cynulliad ar ôl cyfarfod y Pwyllgor y dydd Mawrth canlynol (22 Tachwedd). Cytunodd yr Aelodau a gofynnwyd i'r Clerc drefnu'r ymweliad. Camau i'w Cymryd: Y Clerc.

5.2 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 22 Tachwedd 2005.

### Camau i'w cymryd

5.1 Gofynnwyd i'r Clerc drefnu'r ymweliad ag adeilad newydd y Cynulliad yn union ar ôl y cyfarfod yr wythnos ganlynol (22.11.05).